# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Home Address Ltd**

**7 Vergam Terrace**
**Abergwaun**
**SA65 9DD**

**This report is also available in English**

**Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

01 Mawrth 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Home Address Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb ofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Home Address Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 6 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Mewnosod â llaw<br>20 Medi 2019 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ddefnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Mae'r bobl sy'n byw yn Home Address yn cael eu cefnogi gan staff sydd wedi derbyn hyfforddiant addas, sy'n llawn cymhelliant, ac sy'n cael eu harwain yn effeithiol.

Mae'r eiddo yn lân, yn gyffyrddus ac mewn cyflwr da, gyda'r bobl yn gallu rhoi barn ar ei addurniad, ac mae ganddynt rai cyfrifoldebau am gadw eu cartref yn lân ac yn daclus.

Mae gan yr unigolyn cyfrifol oruchwyliaeth dda o'r cartref ac mae'r staff yn meddwl ei fod yn gefnogol. Maent hefyd yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan y rheolwr.

Mae gan y bobl ystod o gyfleoedd i wneud y pethau sydd yn bwysig iddynt, sy'n golygu bod yr amser y maent yn ei dreulio yn y cartref ac yn y gymuned leol yn bwrpasol.

## Llesiant

Mae pobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth a niwed. Mae'r staff yn gwybod y camau y mae'n rhaid iddynt eu cymryd os ydynt yn amau bod unigolyn mewn perygl. Maent yn hyderus y bydd y rheolwr yn cymryd y mesurau priodol i adrodd am unrhyw bryderon, a hefyd cymryd y camau angenrheidiol i ddiogelu pobl.

Mae mynediad at y cartref yn cael ei reoli gan y staff, sy'n sicrhau mai dim ond y rhai sydd â rheswm cyfreithlon dros fod yn y cartref sy'n gallu mynd i mewn. Mae'n ofynnol i ymwelwyr fewngofnodi mewn llyfr ymwelwyr a dangos tystiolaeth o brawf llif unffordd negatif. Mae'r holl staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol er mwyn lleihau'r risg o gyflwyno haint i'r cartref.

Mae cyfeillgarwch naturiol rhwng y bobl a'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn disgrifio eu hunain fel *"ffrindiau"* a chawsant eu gweld yn cynnig cymorth ac anogaeth.

Mae'r bobl hefyd yn cael cydberthnasau da â'r rhai sy'n eu cefnogi, gyda'r gweithwyr yn teimlo'n llawn cymhelliant ac yn frwdfrydig am eu gwaith. Dywedodd un wrthym, *"Rwyf wrth fy modd"* a dywedodd un arall, *"Mae'n anhygoel …Rydym fel teulu bach."*

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Maent yn gwneud y pethau sydd yn bwysig iddynt. Mae rhai mewn cyflogaeth wirfoddol neu gyflogaeth â thâl ac maent yn cael eu cefnogi gan y staff i'w wneud hyn. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys yn y gymuned leol. Dywedodd un gweithiwr gofal wrthym, *"Mae'r cleientiaid yn chwarae'r un rhan â'r staff"* wrth ddisgrifio'r gwaith o redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd, sy'n dystiolaeth o ba mor gynhwysol y mae'r gofal a'r cymorth a sut mae'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

## Gofal a Chymorth

Mae cynlluniau gofal, asesiadau risg a thaflenni gweithgareddau dyddiol yn cael eu cadw fel cofnodion papur. Mae cynlluniau gofal yn gynhwysfawr ac yn rhoi’r wybodaeth sydd ei hangen ar y staff i gefnogi'r bobl. Mae ysgrif bortread pen sy'n rhoi gwybodaeth am hanes y bobl, gan gynnwys pwy a beth sy'n bwysig i'r unigolyn.
Mae cynlluniau ar gael i sicrhau bod y bobl yn ddiogel. Er enghraifft, mae'r cynllun ar gyfer asesu'r gymuned yn cynnwys gwybodaeth am bethau sydd eu hangen ar yr unigolyn i aros yn ddiogel ynghyd â phethau y mae angen cymorth ar yr unigolyn gyda nhw.
Mae cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar gryfderau pobl ac, ar y cyfan, maent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Byddai rhai cofnodion yn elwa ar adolygiad gan y cafodd un y gwnaethom edrych arno ei ysgrifennu yn 2018.
Mae cofnodion gweithgareddau dyddiol yn fanwl ac yn amlinellu'n glir sut y gwnaeth yr unigolyn dreulio ei amser a chanlyniad y gweithgaredd, gan gynnwys sut y gwnaeth yr unigolyn deimlo ar ei ôl.

Gall y bobl wneud pethau sy'n bwysig iddynt. Mae gan rai o'r bobl swyddi, gan gynnwys gwaith gwirfoddol a gwaith â thâl. Mae un unigolyn yn mwynhau mynd i wylio'r tîm pêl-droed lleol yn chwarae, ac mae un arall yn mwynhau mynd i'r porthladdoedd lleol a thynnu lluniau. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys yn y gwaith o siopa ar gyfer y cartref ac mae rhai yn cymryd rhan yn y gwaith o goginio a pharatoi prydau. Roedd un aelod o staff yn falch o'r ymdrechion a wnaed gan un unigolyn i helpu i baratoi pryd o fryd gydag anogaeth, pan oedd yn meddwl na allai wneud hyn.

Mae anghenion iechyd corfforol pobl yn cael eu diwallu. Mae apwyntiadau deintyddol, yr optegydd a thrin traed yn cael eu mynychu. Mae'r staff yn gwybod sut i gydnabod os yw pobl yn dod yn sâl ac maent hefyd yn gwybod y camau y mae'n rhaid iddynt eu cymryd. Mae pwysau'r bobl yn cael eu monitro.
Mae mesurau atal a rheoli heintiau da ar waith ac mae'r holl staff yn gwisgo’r cyfarpar diogelu personol priodol. Mae'n ofynnol i ymwelwyr â'r cartref ddarparu tystiolaeth o brawf llif unffordd negatif a chael eu tymheredd wedi'i gymryd.

Mae dealltwriaeth o bwysigrwydd maeth da. Dywedwyd wrthym fod y rhan fwyaf o brydau yn cael eu gwneud gan ddefnyddio cynhwysion ffres ac mae bwyd hefyd ar gael y tu allan i amseroedd prydau. Mae'r staff yn hapus gydag ansawdd y cynhwysion ac mae opsiynau amgen drwy'r amser ar gael os nad yw'r bobl am gael yr hyn sydd ar y fwydlen. Prin yw'r ddibyniaeth ar fwyd wedi'i brosesu ac rydym wedi gofyn i'r darparwr fonitro ei ddefnydd i sicrhau na chaiff ei ddefnyddio pan fydd dewisiadau amgen ffres ar gael.

## Yr Amgylchedd

Mae pobl yn byw mewn cartref sy'n addas i'w hanghenion. Mae'n lân, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, ac yn gyffyrddus. Mae'r ystafelloedd gwely ar dri llawr.
Nid oes gan yr ystafelloedd gwely gyfleusterau en suite ond dywedodd y bobl wrthym fod digon o ystafelloedd ymolchi iddynt eu defnyddio.
Roedd un unigolyn yn falch o ddangos ei ystafell wely inni, y mae wedi dewis y lliwiau a'r addurniadau ar ei chyfer. Mae'r ystafelloedd gwely yn gyfforddus ac yn cynnwys lluniau ac addurniadau personol.
Mae lolfa gysurus ar y llawr cyntaf y dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hoffi ei defnyddio, a hefyd cegin, a ddefnyddir yn aml, i'r bobl a'r staff dreulio amser gyda'i gilydd.
Byddai rhai rhannau o'r cartref yn elwa ar rai gwaith ailaddurno, ond mae hyn o ganlyniad i draul gyffredinol.

Cyfrifoldeb y staff a'r rhai sy'n byw yn y cartref yw cadw’r cartref yn lân. Dywedodd un unigolyn wrthym ei fod yn cadw ei ystafell yn daclus ac mae cofnodion gweithgareddau yn cadarnhau hyn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r rheolwr yn cael ei gefnogi gan dîm o staff sy'n cynnwys gofalwyr ac uwch-ofalwyr. Mae gan y staff y cyfle i ddatblygu ac mae rhai o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw wedi cael dyrchafiad yn ystod eu cyflogaeth.

Mae'r staff yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwr, ac mae'r rheolwr, yn ei dro, yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi'n dda gan yr unigolyn cyfrifol. Mae'r staff yn gallu trafod unrhyw syniadau neu bryderon sydd ganddynt gyda'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol. Mae'r sesiynau goruchwylio yn gyfredol ar y cyfan ac mae'r staff yn cael adborth adeiladol ar eu gwaith.

Mae'r holl staff yn credu bod ganddynt yr hyfforddiant sydd ei angen i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau. Mae ffeiliau staff yn dangos bod hyfforddiant wedi'i gwblhau mewn ystod o feysydd, gan gynnwys ymddygiad heriol, rheoli heintiau, meddyginiaeth, a chydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant yn gyfredol ond mae rhai bylchau, sydd o ganlyniad i'r pandemig yn bennaf. Gwnaeth y rheolwr ddangos ffurflen inni ei fod yn bwriadu ei defnyddio, a fydd yn rhoi llun mwy clir o statws hyfforddiant cyfredol y staff.

Mae digonedd o staff ar ddyletswydd, ac mae'r niferoedd ar bob sifft yn seiliedig, yn rhannol, ar anghenion unigol a gweithgareddau arfaethedig y bobl sy'n byw yno. Os yw wedi'i drefnu y bydd pobl yn treulio amser i ffwrdd o'r cartref, mae hyn yn cael ei ystyried yn niferoedd y staff ar gyfer y diwrnod hwnnw. Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt amser i'w dreulio'n unigol gyda'r bobl ac nid yw'r cymorth byth yn cael ei ruthro. Gwelsom fod yr awyrgylch yn gyfeillgar ac yn ddigynnwrf, gyda'r staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae prosesau recriwtio diogel ar waith. Yn y rhan fwyaf o ffeiliau, mae copïau o eirdaon, gwiriadau a dogfennau adnabod ffotograffig. Nid oedd gan un ffeil dystiolaeth o wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ond gwnaeth y rheolwr ein sicrhau bod un gan yr aelod o staff ac y byddai'n diwygio'r cofnodion yn unol â hynny.

Mae rhai trefniadau llywodraethu i fonitro ansawdd ac mae'r unigolyn cyfrifol wedi ysgrifennu adolygiad cynhwysfawr o'r cartref yn ystod y pandemig a'r heriau y gwnaeth y cartref eu hwynebu a'r pethau y gwnaethant eu gwneud i sicrhau bod diwrnodau'r bobl yn parhau i fod yn ystyrlon.
Mae gwiriadau yn cael eu cynnal i sicrhau bod offer tân yn ddiogel. Cynhelir gwiriadau rheolaidd o'r drysau tân, y larymau tân a'r diffoddwyr tân. Cynhelir ymarferion tân yn rheolaidd.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| --- | --- | --- |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 23/03/2022